Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod mis Mawrth 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Eglwys Llanllwni, nos Lun 14 Mawrth 2022.

Roedd y Clerc wedi rhoi poster a oedd yn cynnwys yr Agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd pob un a oedd yn bresennol yn dilyn rheolau Cofid ac yn gwisgo mygydau.

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Cafwyd trafodaeth am y camau nesaf i'w cymryd er mwyn datblygu'r cae chwarae.
Cytunwyd bod angen cwrdd ar y cae chwarae yn dilyn etholiad mis Mai i benderfynu ar y camau nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd y Clerc wedi derbyn adborth parthed y wefan. Cytunwyd y dylid symud ymlaen â'r gwaith.

DIFFIBRILYDD
Byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu ym mis Ebrill

GOLEUADAU STRYD
Cafwyd cadarnhad bod y golau ger Ffynnon-ddrain yn gweithio. Cadarnhawyd bod y golau wedi ei ailosod ger Yr Hen Swyddfa Bost, a bod gorchudd wedi ei roi dros y golau. Roedd golau Ty Gôf yn dal eisiau sylw.

TOILED I'R RHEINI AG ANABLEDD
Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'n fantais cael toiledau i'r rheini ag anabledd ar y cae chwarae yn barhaol.

ETHOLIAD 2022
Byddai'r Clerc yn gosod rhybudd etholiad yn Siop y Pentre i nodi bod seddi gwag ar Gyngor Bro Llanllwni, a bod croeso i gysylltu â'r Clerc am fanylion pellach.

LLWYBR PWLL JAC
Roedd y goeden wedi cael sylw.

Penderfynwyd cefnogi Cymdeithas Rhieni, Athrawon, a Ffrindiau Ysgol Llanllwni.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 09 Mai 2022 am 8.00yh.